NOVUS CAMBRIA
GYDA'N GILYDD ER MWYN NEWID
TOGETHER FOR CHANGE

# Hysbysiad Preifatrwydd - Cleientiaid (Gwasanaethau Cwricwlwm Novus Cambria)

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut yr ydym yn defnyddio data personol ar gyfer dibenion darparu ein cleientiaid gyda'n gwasanaethau cwricwlwm (er enghraifft salonau Trin Gwallt a Thorri Gwallt Dynion), ein seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu, cyfnodau cadw perthnasol a sut y gallwch ymarfer eich hawliau preifatrwydd.

*Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn darparu gwybodaeth sydd yn ychwanegol i unrhyw hysbysiadau preifatrwydd o ran ffotograffiaeth a ffilm berthnasol, ffurflenni caniatad ac arwyddion sydd o bosib wedi bod i fyny yn ystod yr amser a dderbyniwyd y gwasanaeth a bod lluniau wedi cael eu tynnu / ffilmio wedi cymryd lle.*

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

## 2. Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae Novus a'i is-gyrff fel Novus Cambria, Novus Gower a Novus Trawsnewid Bywydau ("**ni**", "**ein**") wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol ("**data personol**"). Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y byddwn yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU (y "**GDPR**") ynghyd â chyfreithiau diogelu data eraill gan y DU.

**Mae ein Polisi Diogelu Data yn ogystal â rhagor o wybodaeth ar sut y byddwn yn prosesu data i'w gael ar: https://www.novuscambria.ac.uk/data-protection.**

**Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data ar dpo@ltegroup.co.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.**

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall y byddwn o bosib yn ei ddarparu ar achlysuron penodol pan fyddwn yn casglu neu brosesu gwybodaeth amdanoch fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham ein bod yn defnyddio eich data personol a beth yw eich hawliau cyfreithiol mewn perthynas â'r data.

## 3. Y Math o Wybodaeth Rydym yn ei Gadw Amdanoch Chi

Ystyr data personol, neu wybodaeth bersonol yw unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir ei ddefnyddio i adnabod yr unigolyn hynny. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r hunaniaeth wedi'i dynnu (data dienw).

Mae rhai agweddau o'r data personol y byddwn o bosib yn ei gasglu amdanoch wedi cael ei ddosbarthu fel 'data personol categori arbennig', er enghraifft unrhyw wybodaeth gorfforol amdanoch sy'n berthnasol i'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu. Mae'r broses o gael mynediad at y wybodaeth, a rhannu'r wybodaeth hon yn cael ei rheoli'n ofalus iawn.

Gall y categorïau o wybodaeth bersonol y byddwn o bosib yn ei gasglu, cadw a'i ddefnyddio amdanoch gynnwys y canlynol:

| | Cleient |
|---|---|
| **Enw Llawn** | ✓ |
| **Manylion Cyswllt (h.y. rhif ffôn, cyfeiriad e-bost)** | ✓ |
| **Dyddiad Geni/Oedran** | ✓ |
| **Gwybodaeth gorfforol/iechyd perthnasol*** | ✓ |
| **Ffotograffau** | ✓ |
| **Recordiadau Sain** | ✓ |
| **Manylion Talu** | ✓ |

## 4. Sut fyddwn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol?

Fel arfer byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch ar ein cyswllt cyntaf â chi pan fyddwch yn archebu ein gwasanaethau yn y lle cyntaf ac yn ystod unrhyw ymgynghori perthnasol cyn i chi dderbyn y gwasanaeth/gwasanaethau hynny. Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol yn ystod yr amser y byddwch yn defnyddio ein gwasanaethau - er enghraifft mewn person, ar e-bost neu dros y ffôn.

## 5. Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi?

Bydd data personol cleient yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion darparu a theilwra gwasanaeth/gwasanaethau cwricwlwm i chi fel cleient ac i alluogi ein myfyrwyr i astudio tuag at eu cymwysterau ac i adeiladu eu portffolios.

*O bryd i'w gilydd bydd ffotograffau yn cael eu tynnu a fideos yn cael eu cymryd ar y safle ar gyfer dibenion marchnata, addysgol a hyrwyddo. Gall y delweddau hyn gael eu defnyddio mewn fformatau print a digidol yn cynnwys cyhoeddiadau, gwefannau, e-farchnata, baneri poster, hysbysebu, ffilm, cyfryngau cymdeithasol, dibenion addysgu ac ymchwil ac ati. Rydym yn gwneud hyn i helpu arddangos y gwaith rydym yn ei wneud fel darparwr addysg a chefnogi cyflawniadau ein myfyrwyr.*

### Oes angen eich caniatâd arnom?

Fel arfer ni fyddwn yn prosesu eich data personol yn seiliedig ar ganiatâd gan ein bod gan amlaf yn dibynnu ar sail gyfreithiol arall. Pryd a phan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn amodol ar eich caniatâd byddwn yn eich hysbysu o hynny cyn i ni ddechrau ar y gwaith prosesu a bydd gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

## 6. Os nad ydych yn darparu gwybodaeth

Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth benodol pan fyddwch wedi derbyn cais i wneud hynny efallai na fydd hi'n bosib i ni ddarparu'r gwasanaethau ar eich cyfer.

## 7. Ein seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu

Mae cyfreithiau diogelu data yn gofyn i ni gwrdd ag amodau penodol cyn y caniateir i ni ddefnyddio eich data personol yn y modd sydd wedi cael ei egluro yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn gan gynnwys bod â "sail gyfreithlon" i brosesu.

Mae rhai o'r seiliau isod ar gyfer prosesu yn gorgyffwrdd ac efallai y bydd sawl sail sy'n cyfiawnhau ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol. Efallai y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol heb i chi wybod neu heb eich caniatâd lle mae hynny'n ofynnol neu'n cael ei ganiatau yn ôl y gyfraith.

| Sail Gyfreithlon | |
|---|---|
| **Contract** | • Gallu eich darparu gyda'n gwasanaethau fel cleient yn unol ag unrhyw delerau ac amodau perthnasol |
| **Cyfreithlon diddordebau** | • Mae gennym ddiddordeb cyfreithlon i allu hyrwyddo Grŵp LTE yn defnyddio ffotograffiaeth / fideograffiaeth fel y gwelir uchod<br>• Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eich bod yn ymwybodol pan fydd lluniau yn cael eu tynnu / ffilmio yn cymryd lle er mwyn lleihau unrhyw effaith o ran preifatrwydd |
| **Caniatâd** | • Pan yn briodol efallai y byddwn yn gofyn am eich caniatâd i dynnu lluniau / ffilmio / recordio • Byddwn yn gwneud hynny trwy eich ffurflen gwsmer neu gyda ffurflenni caniatâd perthnasol un ai'n electronig neu ar bapur.<br>• Gallwch ddewis i gael eich eithrio o ffotograffau / ffilmio fel y gwelir isod. |

## 8. Sut ydw i'n gwybod os y bydd rhywun yn tynnu lluniau neu'n cymryd recordiadau sain?

Pan yn bosib byddwn yn sicrhau eich bod yn ymwybodol fod lluniau yn cael eu tynnu, fideos neu recordiadau sain yn cael eu cymryd yn y ffyrdd canlynol:

- Ar gyfer digwyddiadau byddwn yn anfon hysbysiad allan o flaen llaw ar ffurflenni archebu, gwahoddiadau, gwybodaeth ac ati o'n bwriad i dynnu lluniau / ffilmio / recordio mewn digwyddiadau.
- Arwyddion cynhwysfawr mewn lleoliadau amlwg yn cynnwys pwyntiau mynediad ac allanfa • Eich hysbysu mewn person pan fydd gofyn am eich caniatâd yn berthnasol.

## Tynnu eich caniatâd yn ôl neu optio allan

Os ydym wedi casglu eich caniatâd neu eich bod yn dymuno optio allan ar ôl y digwyddiad, unwaith y bydd lluniau wedi'u tynnu / ffilmio wedi cymryd lle gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl / optio allan trwy adael i aelod o'r tîm wybod neu trwy gysylltu â dpo@ltegroup.co.uk a nodi: eich enw, y gwasanaeth a fynychwyd a'r dyddiad. Mewn achosion lle nad yw'n bosib i ni eich adnabod efallai y bydd yn rhaid i ni ofyn i chi ddarparu llun diweddar i'n helpu ni gwblhau'r broses ddileu. Byddwn yn cael gwared arno'n ddiogel unwaith y byddwn wedi cael gwared ar y lluniau a dynwyd / ffilm a gymerwyd.

Nodwch er y byddwn yn stopio defnyddio eich llun mewn cyhoeddiadau presennol yr ydym yn parhau i'w rheoli / cyhoeddiadau digidol ac unrhyw gyhoeddiadau yn y dyfodol ni fydd yn bosib i ni gael gwared ar eich llun o unrhyw gopïau wedi'u hargraffu a'u cyhoeddi yn barod i'r cyhoedd. Gall hynny gynnwys unrhyw ddelweddau sydd wedi cael eu rhannu gyda'n cyrff dyfarnu neu bartneriaid digwyddiadau (pan fo hynny'n berthnasol). Ni fydd eich penderfyniad o dynnu eich caniatâd yn ôl / optio allan yn effeithio cyfreithlondeb unrhyw brosesu yr ydym wedi'i gynnal cyn i chi dynnu'n ôl.

## 9. Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau

Mae'n bwysig fod y wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gywir a chyfredol. Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau yn eich gwybodaeth bersonol.

## 10.Newid diben

Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer y dibenion a gasglwyd y wybodaeth yn y lle cyntaf oni bai ein bod yn ei ystyried yn rhesymol fod angen ei ddefnyddio ar gyfer rheswm arall sy'n cyd-fynd â'r diben gwreiddiol. Os oes angen defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw'n gysylltiedig â hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi a byddwn yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi i wneud hynny.

Efallai y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol heb i chi wybod neu heb eich caniatâd yn unol â'r rheolau uchod lle mae hynny'n ofynnol neu'n cael ei ganiatau yn ôl y gyfraith.

## 11. Rhannu Data

Efallai y byddwn yn rhannu eich data personol gyda thrydydd parti fel corff dyfarnu i'w ddefnyddio fel tystiolaeth portffolio i'n myfyrwyr neu gyda phartneriaid digwyddiadau dibynadwy neu ddarparwyr technoleg trydydd parti.

*Bydd unrhyw ganiatâd ar gyfer ffotograffiaeth ddim yn cael ei rannu ond mae unrhyw ddelweddau a ffilm y byddwn yn ei gymryd yn debygol o fod ar gael i'r cyhoedd. Mae hynny'n cynnwys yn ein cyhoeddiadau mewnol ac allanol, cyfryngau wedi'u hargraffu, prosbectysau, ar ein gwefannau, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a pharth hysbysebu cyhoeddus eraill ac o fewn hysbysebion gyda thrydydd parti penodol (e.e. Google. Facebook ac Instagram).*

*O ganlyniad mae ffotograffau wedi'u cyhoeddi / ffilmiau ar gael i unrhyw un sydd eisiau mynediad i'r wefan, sianeli cyfryngau cymdeithasol neu ddeunyddiau wedi'u hargraffu ac ati lle mae'r ffotograff neu fideo yn ymddangos.*

*Bydd ffotograffau, fideos neu recordiadau sain ond ar gael i fyfyrwyr, gweithwyr ac asiantaethau o'r Grŵp LTE sydd wedi'u cymeradwyo neu drydydd parti sy'n prosesu data ar ein rhan (h.y. darparwyr argraffu, cyflenwyr rheoli asedau digidol).*

## Am ba mor hir y byddwch yn defnyddio fy ngwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen. Mae gennym **Amserlen Cadw Data** sy'n amlinellu pa mor hir rydym yn cadw gwybodaeth.

*Pan fyddwn wedi casglu eich caniatâd i ddefnyddio eich llun bydd y ffurflen ganiatâd a ddefnyddiwyd gyda chyfnod cadw penodol (tair blynedd fel arfer), ac ar ôl hynny byddwn yn cael gwared ar y llun / ffilm neu'n gofyn i chi adnewyddu eich caniatâd. Byddwn yn gwneud hyn yn defnyddio'r wybodaeth gyswllt a ddarparwyd yn y Cerdyn Cofrestru Cleient neu ffurflen ganiatâd.*

*Os na ddefnyddir ffurflen ganiatâd byddwn yn defnyddio ac yn cadw'r llun/ ffilm am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y digwyddiad ac ar y pwynt hynny yn cael gwared ar y llun / ffilm. Nodwch ar ôl dileu'r wybodaeth y bydd o bosib yn parhau i ymddangos mewn deunyddiau sydd eisoes mewn cylchrediad cyn y dyddiad hwn.*

*Pan mae delweddau wedi cael eu rhannu gyda phartneriaid ein digwyddiad bydd eu cyfnodau cadw nhw o bosib yn berthnasol hefyd.*

Mae gwybodaeth bellach i'w gael ar gais dpo@ltegroup.co.uk, neu drwy ysgrifennu at y cyfeiriad yn adran 16.

## 13. Gwneud Penderfyniadau Awtomatig

Mae gwneud penderfyniadau awtomatig yn digwydd pan fo system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth ddynol. Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw benderfyniadau amdanoch fel hyn. Byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig os yw hyn yn newid.

## 14. Diogelwch data

Mae gennym fesurau yn eu lle i helpu gwarchod eich gwybodaeth. Dim ond partïon awdurdodedig sydd ag angen cyfreithiol i wybod, sy'n gallu ei weld.

Bydd eich data yn cael ei storio yn y DU yn unig.

Mae gennym weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw dor diogelwch personol tybiedig. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am doriadau tybiedig pan fydd gofyniad cyfreithiol arnom i ni wneud hynny.

## 15. Eich hawliau unigol sy'n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol

Yn ôl y gyfraith mae gennych yr hawl i wneud cais am:

- **Fynediad** i weld eich gwybodaeth bersonol
- **Cywiro'r** wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch os yw'n anghywir.

- **I ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y gallwn ni wneud hyn.•

**Cyfyngu** prosesu eich gwybodaeth bersonol

- **Trosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall
- **Gwrthwynebu** prosesu eich gwybodaeth bersonol
- **Gwahardd** prosesu eich gwybodaeth bersonol

Os ydych yn dymuno gwneud unrhyw geisiadau ynghylch data personol siaradwch gydag unrhyw aelod o'r adran neu cysylltwch â'r Swyddfa Diogelu Data ar dpo@ltegroup.co.uk. Os ydych chi'n gwneud cais, efallai byddwn angen gwybodaeth benodol gennych chi, neu eich cynrychiolydd, i gadarnhau eich hunaniaeth.

Mae arweiniad pellach ar eich hawliau ar gael o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (https://ico.org.uk/).

## 16. Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data

Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data, mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn ffurfiol gyda'r adran ganlynol.

| | |
|---|---|
| **Ysgrifennydd y Cwmni a'r Cwnsler Cyffredinol**<br>Grŵp LTE<br>Whitworth House<br>Ashton Old Road<br>Manceinion<br>M11 2WH<br><br>Trwy e-bost:dpo@ltegroup.co.uk<br><br>Os nad ydych chi'n dymuno trafod hyn gyda ni, neu os nad ydych chi'n hapus gyda'n hymateb, mae gennych chi'r hawl hefyd i wneud cwyn gyda'r awdurdod goruchwylio sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: | **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru**<br>2il Lawr,<br>Churchill House<br>Ffordd Churchill<br>Caerdydd CF10 2HH<br><br>0330 414 6421<br>https://ico.org.uk/about-the-ico/who-we-are/wales-office/<br><br>Gall eich cynrychiolydd hefyd gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar yr e-bost canlynol: wales@ico.org.uk |